# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Iau, 27 Hydref 2016.**

**Presennol:-** Cynghorwyr Gwenfair E Davies, Dafydd E Evans, Paul Hughes, Gareth W Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, William N Owen, Geraint Wigley, Ann Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwr:- Aled O Griffiths, Siôn Ifans, D Gwyn Jones, John Pughe Jones, S Gareth Owen, Huw M Williams.

Estynodd y Cadeirydd croeso i pawb a dymunodd gwelliant buan i Isaac, mab Cyng Paul Hughes.

**16.52. Cofnodion cyfarfod 29 Medi 2016.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**16.53. Materion yn codi o'r cofnodion.**
49.3 Dyfodol Ysgol Bro Hyddgen Machynlleth. Cyflwynodd y Clerc copi o llythr gan Betsan Ifan, Cyngor Sir Powys sydd wedi cael ei gyrru i rhieni y plant am y cynlluniau at y dyfodol.
50.2 Newidiadau i terfynau yr ardal etholaeth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd dewis cyntaf y Cyngor Cymuned fyddai cadw Sir Trefaldwyn. Ail ddewis y Cyngor fyddai cysylltu ardal Dyffryn Dyfi gyda De Merionydd.
50.3 Cyfarfod i thrafod dyfodol Rheiffordd Corris. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi mynychu y cyfarfod a rhoddodd crynodeb o'r datblygidau mae'r Rheilffordd yn ystyried at y dyfodol.
51.4 Cyflwr Cae'r Efail Llanwrin. Eglurodd Cyng William Owen ei fod yn pryderu fod y problemau sbwriel yn cynyddu. Cytunwyd cysylltu gyda Tai Canolbarth Cymru.

**16.54. Cynllunio.**
54.1 NMA/2016/0075. Cais i newid amodau cais cynllunio P/2016/0634 yn Garden Cottage, Llwyngwern, Pantperthog. Cytunwyd peidio rhoi barn.

**16.55. Eitemau i'w talu.**
Dim.

**16.56. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
56.1 Cronfa Cymunedol Melynau Gwynt Dyffryn Dulas. Eglurodd Cyng Gwen Lloyd fod dau cais am arian wedi cael eu derbyn gan y cronfa. Mae'n debyg mi fydd cyfle arall yn agor i ceisio am arian cyn bo hir.
56.2 Ysgol Bro Hyddgen Machynlleth. Rhoddodd Cyng Gwilym Fychan mwy o fanylion am y cynllyn i codi adeiladau newydd i'r Ysgol. Mae yna rhai pryderon am dyfodol safle presennol Ysgol y Plant Iau a dyfodol y caeau chwarae ond rhaid croeso y buddsoddiad yn dyfodol yr Ysgol. Gofynodd Cyng Dafydd Evans os fyddai y cynlluiau yn creu unrhyw bygythiad i ddyfodol Ysgol Glantwymyn. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan ei fod ddim yn rhagweld unrhyw bygythiad oherwydd cryfder y ffederasiwn.

**16.57. Gohebiaeth.**
57.1 E-bost gan Tracey Evans, Cyngor Sir Powys ynglyn ac ymgynghoriad BT am dyfodol nifer blwch ffon o fewn Cyngor Sir Powys. Eglurodd y Clerc fod yna saith blwch ffonio o dan bygythiad o fewn ardal Cyngor Bro Glantwymyn. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gwneud cais i cadw y tri blwch ffon yng Abercegir, Cemmaes Road, a Chwm Ceirig. Cytunwud hefyd gwneud cais i ceisio fabwysiadu y pedwar blwch ffon arall sydd o dan bygythiad.
57.2 Gohebiaeth gan Cyngor Sir Powys ynglyn y Cynllyn Datblygu Lleol. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan y sefyllfa diweddaraf gyda'r Cynllyn.

57.3 E-bost gyda gwahoddiad gan Adrian Ramsay, Canolfan y Dechnoleg Amgen yn Estyn croeso i aelodau y Cyngor Cymuned mynychu agoriad llwybr newydd.
57.4 E-bost gan Eleanor Jones gyda cofnodion Llywodraethwyr Ffederasiwn Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair.
57.5 Gohebiaeth gan cwmni Greenfingers yn cynnig gwasanethau torri gwair.
57.6 E-bost gan Steven Tibbetts, Wales Rally GB gyda manylion y rali. Cytunwyd ysgrifennu at Wales Rally GB a gofyn am y manylion yn llawer mwy prydlon y blwyddyn nesaf.
57.7 E-bost gan Andrea Blayney ar rhan Grwp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth gyda rhaglen o cyfarfodydd lleol.
57.8 E-bost gan Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru ynglyn a datganiad gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud a diwygio Llywodraeth Leol.
57.9 E-bost gan Paul Egan, Un Llais Cymru ynglyn a'r Gwasanaethau Ymgynhoraieth sydd ar gael.

**16.58. Unrhyw fater arall.**
58.1 Dyddiad cyfarfod misol Cyngor Cymuned Glantwymyn ym Mis Rhagfyr. Cytunwyd cwrdd ar Nos Iau, 15 Rhagfyr 2016.
58.2 Dyddiad cyfarfod misol Cyngor Cymuned Glantwymyn ym Mis Mai 2017. Eglurodd y Clerc mi fydd rhaid i'r Cyngor newydd cynnal Cyfarfod Blynyddol o fewn 18 diwrnod ar ol etholiad. Mae'n debyg mi fydd yr etholiad nesaf ar Dydd Iau, 4 Mai 2017. Felly cytunwyd cwrdd ar Nos Iau, 18 Mai 2017.
58.3 Trefniadau Sul y Cofio. Eglurodd y Clerc trefniadau Sul y Cofio a chadarnhaodd fod torch wedi cael ei archebu. Cytunwyd mi fydd y Cadeirydd yn gosod y torch ar rhan y Cyngor Cymuned.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 24 Tachwedd 2016.**